Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

Astudiaeth achos

# Cenhadon Cynhwysiant Digidol

Carl Griffiths, y Cennad Cynhwysiant Digidol, sy'n rhannu sut mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynorthwyo staff a'r cyhoedd i hybu eu sgiliau digidol, gan sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.



Mae Carl yn gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot i gynorthwyo pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Mae'n cynorthwyo staff y cyngor a phobl ym mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn y gall technoleg ei gynnig, ac mae wedi arwain prosiectau amrywiol er mwyn helpu i gael pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol – yn enwedig pobl hŷn – ar-lein.

Roedd canolfannau cymunedol yn hanfodol i helpu pobl hŷn i gadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig. Sylwodd Carl nad oes gan lawer o bobl hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot fynediad i'r rhyngrwyd na thechnoleg, ond bod canolfannau cymunedol wedi'u galluogi i fynd ar-lein yn ogystal â mynd allan o'r tŷ hefyd.

## Meddai Carl:

> "Trefnwyd dyddiau lle gallai pobl ddod i mewn am awr neu ddwy i gael paned o goffi a sgwrs yn ogystal â dysgu'r hyn roedden nhw am ei ddysgu. Byddem yn mynd ag offer yno i bobl ei ddefnyddio, fel gliniaduron ac iPads."

Cefnogwyd y sesiynau hyn gan wirfoddolwyr dawnus o Cymunedau Digidol Cymru, a elwir yn 'Hyrwyddwyr Digidol' hefyd, a oedd yn golygu bod modd cynnal sawl sesiwn ar yr un pryd a chynorthwyo mwy o bobl. Galluogodd hyn i Carl gynnal sgyrsiau yn y gymuned am ystyr cynhwysiant digidol hefyd, gan annog mwy o bobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol i gymryd rhan – rhywbeth y mae'n bwriadu parhau i'w wneud ar ôl y pandemig.



### Eglurodd Carl:

"Rwy'n ymweld â grwpiau cymunedol lleol a allai elwa ar ddefnyddio technoleg, fel grwpiau crefft, cyfarfodydd 60+, i egluro ystyr cynhwysiant digidol a sut y gall wella ansawdd bywyd."

Mae Carl yn arwain Grŵp Partneriaid Digidol mewnol hefyd, i gryfhau sgiliau digidol yn y cyngor. Mae'r partneriaid hyn yn gweithio i'r cyngor wedi'u hyfforddi gan Cymunedau Digidol Cymru, yn gwirfoddoli i gryfhau eu sgiliau er mwyn cynorthwyo eraill.

### Meddai Carl:

"Os oes gan rywun broblem gyda thechnoleg, mae ganddyn nhw rywun i'w ffonio'n awr. Ar hyn o bryd, mae gennym ni 42 o bartneriaid digidol yn cefnogi cydweithwyr ledled y cyngor ac yn rhannu eu gwybodaeth.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae mwy a mwy o wasanaethau wedi mynd ar-lein, ac mae rhai yn gweld hyn yn dipyn o dalcen caled. Gall y partneriaid eu helpu i ddysgu defnyddio'r adnoddau newydd sydd eu hangen i wneud eu gwaith ym myd gweithio o bell. Yn hytrach na theimlo ar goll, mae ganddynt wyneb cyfeillgar y gallant droi ato i'w helpu i ddatrys eu problem."



Gweithiodd Cymunedau Digidol Cymru yn agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i'w galluogi i gyflawni eu hachrediad Siarter Cynhwysiant Digidol yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2020. Mae Carl a'r Cyngor yn cynnal sesiynau 'Learn My Way' hefyd, y gall staff a'r cyhoedd eu mynychu i ddysgu sgiliau digidol newydd.

## Meddai Carl:

> Mae mwy o bobl hŷn nag erioed wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd, ond yn y gorffennol roedd gan lawer fab neu ferch neu aelod arall o'r teulu wrth law i helpu os oedd problemau'n codi. Yn anffodus, newidiodd y pandemig hynny.
>
> Mae llawer o bobl yn mynychu'r grwpiau hyn i ddysgu mwy a helpu eu hunain.

## Meddai:

> Mae popeth yn mynd ar-lein nawr – pasys bws, y Swyddfa Dreth – ac mae pobl hŷn mewn perygl o fethu cael mynediad at wasanaethau allweddol. Mae hyn yn wir hefyd am grwpiau eraill sydd wedi'u hallgau yn ddigidol, fel pobl mewn tai cymdeithasol neu bobl ddi-waith. Dydyn ni ddim am i neb gael eu gadael ar ôl, a gall y sesiynau cymunedol hyn helpu.

## Tri gair i gall gan Carl

1. **Mae bywyd yn dod yn fwy a mwy digidol**
2. **Mae sgiliau cryf yn gwneud tîm cryf**
3. **Gall cynhwysiant digidol atal pobl fregus rhag cael eu gadael ar ôl**



**Helpwch eich cymuned i ddysgu sgiliau digidol sy'n newid bywydau gyda'n hyfforddiant rhad ac am ddim.**

**I gymryd rhan, ewch i:**

digitalcommunities.gov.wales/cy/ 0300 111 5050 @DC_Wales